**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | **10.12.25** |
| **Pwnc / Subject:** | **Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

At ei gilydd, mae Estyn yn croesawu'r newidiadau arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) ac yn cefnogi'r diwygiadau yn gam tuag at reoleiddio cliriach, mwy cyson a chymesur.

Mae ein hymateb yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i sicrhau bod lles, diogelwch ac anghenion datblygiadol plant yn parhau'n ganolog, tra'n cydnabod y gwirioneddau ymarferol sy'n wynebu darparwyr ar draws ystod eang o leoliadau, hefyd.

Rydym yn cytuno bod y strwythur newydd (integreiddio llais y plentyn, deilliannau lles, gofynion a rheoliadau cysylltiedig) yn gwneud y safonau'n fwy hygyrch, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd â llai o brofiad rheoleiddio. Mae ymgorffori rheoliadau cysylltiedig o fewn y safonau yn hynod werthfawr, gan fod hyn yn lleihau baich gweinyddol, yn cefnogi cysondeb ar draws darparwyr mawr a bach, ac yn cryfhau cydymffurfio.

Trwy gydol ein hymateb, rydym yn pwysleisio pwysigrwydd dulliau sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu a chynaliadwyedd. Rydym yn amlygu'r angen am enghreifftiau ymarferol, astudiaethau achos ac adnoddau ategol i helpu darparwyr i weithredu'r safonau mewn ffordd sy'n ystyrlon ac yn gyflawnadwy, fel ei gilydd.

Rydym hefyd yn pwysleisio rôl y safonau mewn hyrwyddo darpariaeth o ansawdd uchel sydd wedi'u seilio ar hawliau, yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn cyd-fynd â gweledigaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ECPLC). Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu hymgorffori yn rhannau annatod o ansawdd, yn hytrach nag ychwanegiadau dewisol.

Mae ein hymatebion yn cydnabod gwerth hyblygrwydd mewn meysydd fel cymwysterau staffio, cymarebau a threfniadau gwarchod plant, sy'n gallu helpu cynnal darpariaeth tra'n parhau i ddiogelu ansawdd. Ar yr un pryd, rydym yn amlygu'r angen am arweiniad clir, llwybrau hyfforddiant hygyrch a goruchwyliaeth gyson i sicrhau tegwch a chydlyniant ar draws y sector.

I gloi, rydym:

- yn cefnogi safonau cliriach a mwy hygyrch gyda rheoliadau wedi'u hymgorffori
- yn galw am enghreifftiau ymarferol, astudiaethau achos ac offer i gynorthwyo gweithredu
- yn cymeradwyo ymagweddau cymesur at staffio, cymarebau a chymorth cyntaf
- yn pwysleisio bod ymgorffori'r Gymraeg a'i diwylliant yn rhan annatod o ddarpariaeth o ansawdd da

Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu grwpiau ffocws i gynorthwyo ag ymgysylltiad ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Ticiwch p'un a ydych chi wedi cymryd rhan mewn un o'r sesiynau hyn yn ogystal â llenwi'r ffurflen hon.

Ydw, rydw i wedi mynychu grŵp ffocws ar yr ymgynghoriad hwn, hefyd

☑ Nac ydw, dydw i ddim wedi mynychu grŵp ffocws ar yr ymgynghoriad hwn

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiynau am Newidiadau Arfaethedig**

**Rydym yn gofyn am eich barn ynglŷn a ph'un a ydych yn cytuno â chynllun newydd arfaethedig y Safonau.**

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y cynllun yn yr enghraifft o [Safon 12: Bwyd a Diod] a ddarperir yn glir?**

**Cytuno**

Mae Estyn yn cytuno bod y cynllun yn glir.

Mae'r strwythur sy'n amlinellu llais y plentyn, deilliannau lles bwriadedig, y gofynion, safonau a rheoliadau cysylltiedig, yn ei gwneud yn rhesymegol ac yn hawdd i'w ddeall. Gallai fod yn arbennig o fuddiol ar gyfer ymarferwyr sydd â phrofiad cyfyngedig o ddelio â dogfennau rheoleiddio.

Mae'r dyluniad yn addas ar gyfer dyfeisiau symudol, sy'n ddefnyddiol ar gyfer darparwyr nad ydynt bob amser yn cael cyfle i ddefnyddio cyfrifiadur traddodiadol.

Mae'r gallu i lawrlwytho'r ddogfen a'i hargraffu, os oes angen, yn rhywbeth defnyddiol i'w gynnwys.

Gellid cryfhau'r ymgynghoriad trwy gynnwys enghreifftiau byr ac ymarferol i ddangos sut gellir cymhwyso'r safonau mewn gwahanol fathau o ddarpariaeth.

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod cynnwys y rheoliadau cysylltiedig o fewn y safonau yn fuddiol?**

**Cytuno**

Mae Estyn yn cytuno bod cynnwys y rheoliadau cysylltiedig o fewn y safonau yn fuddiol.

Mae'r dull hwn yn gwneud gofynion statudol yn gliriach ac yn haws mynd atynt, yn enwedig ar gyfer lleoliadau lle mae amser a chapasiti gweinyddol yn gyfyngedig.

Ar gyfer staff newydd neu lai profiadol yn y sector, gellid defnyddio'r fformat hwn yn offeryn hyfforddi a chyfeirio, gan gryfhau hyder mewn cydymffurfio ac arfer.

Mae cael rheoliadau ochr yn ochr â'r safonau yn cefnogi cysondeb ar draws y sector, yn cynnwys rhwng darparwyr mawr a bach ac yn lleihau'r baich o ran croesgyfeirio dogfennau lluosog.

Mae hefyd yn cynorthwyo arolygwyr i gyfleu disgwyliadau'n glir yn ystod arolygiadau.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai diweddariadau i reoliadau yn y dyfodol yn cael eu hamlygu'n glir er mwyn i ddarparwyr allu nodi newidiadau'n gyflym heb fod angen cymharu dogfennau.

Ochr yn ochr â'r rheoliadau ffurfiol, byddai nodiadau esboniadol neu enghreifftiau yn cynorthwyo dealltwriaeth a chymhwyso ymhellach, er enghraifft "beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol mewn lleoliad meithrin bach nas cynhelir".

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei bod yn fuddiol cael dolenni at ddogfennau i gynorthwyo â gwella ansawdd o fewn pob safon?**

**Cytuno**

Mae Estyn yn cytuno bod cael dolenni at ddogfennau sy'n cefnogi gwella ansawdd o fewn pob safon yn fuddiol.

Mae dolenni uniongyrchol at ddogfennau ategol yn ei gwneud yn haws nodi arfer orau mewn modd amserol heb fod angen chwilio'n ehangach.

Mae dolenni at ddogfennau o fewn pob safon yn cefnogi dealltwriaeth ar y cyd o sut beth yw “ansawdd” ar draws ystod o leoliadau, a ddylai arwain at fwy o gysondeb o ran sut caiff safonau eu cymhwyso.

**Rydym yn gofyn am eich barn ar ddiweddariadau i’r bennod “Beth mae Darpariaeth o Ansawdd Uchel yn ei olygu” o fewn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.**

**Cwestiwn 4: Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y dylem ni ddiweddaru pennod ‘Beth mae Darpariaeth o Ansawdd Uchel yn ei olygu’ y Safonau Gofynnol Cenedlaethol fel ei bod yn cyd-fynd ymhellach ag egwyddorion ECPLC?**

**Cytuno**

Mae Estyn yn cytuno y dylid diweddaru’r bennod hon fel ei bod yn cyd-fynd ymhellach ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ECPLC).

Dylai hyn gryfhau cysondeb ar draws yr ystod oedran 0–12, hyrwyddo arfer sy’n canolbwyntio ar y plentyn ac arfer sydd wedi’i seilio ar hawliau a darparu arweiniad cliriach ar sut beth yw darpariaeth o ansawdd uchel y tu hwnt i gydymffurfio gofynnol.

**Cwestiynau Ymgysylltu**

**I helpu llywio datblygiad polisi yn y dyfodol a’n hymrwymiad parhaus i’r weledigaeth ar gyfer ECPLC, byddem yn gwerthfawrogi’ch ymatebion i’r cwestiynau ymgysylltu canlynol:**

**Cwestiynau Ymgysylltu**

**Ymgysylltiad A: Pa newidiadau pellach hoffech chi eu gweld o fewn canllawiau statudol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i gefnogi Gweledigaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ECPLC)**

Mae’r drafft presennol yn creu cysylltiadau â gweledigaeth ECPLC, er enghraifft trwy ymgorffori egwyddorion fel oedolion sy’n galluogi, amgylcheddau effeithiol a phrofiadau difyr.

Fodd bynnag, gallai mireinio pellach sicrhau bod y canllawiau statudol yn darparu mwy o gymorth ymarferol ar gyfer ystod eang y lleoliadau.

Gallai’r canllawiau ystyried cynnwys enghreifftiau cliriach yn dangos sut beth yw darpariaeth o ansawdd uchel mewn cyd-destunau llai, fel gwarchodwyr plant, cylchoedd chwarae sesiynol, neu gynlluniau chwarae wedi’u harwain gan gymunedau. Byddai hyn yn helpu ymarferwyr i weld sut gellir ymgorffori egwyddorion ECPLC yn gymesur lle mae adnoddau’n fwy cyfyngedig.

Gellid cefnogi hyn gan astudiaethau achos neu ‘enghreifftiau o arfer dda’.

**Ymgysylltiad B: A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â’r bennod ‘Beth mae Darpariaeth o Ansawdd Uchel yn ei olygu’**

Mae’r bennod hon yn cofnodi hanfod darpariaeth o ansawdd uchel yn dda.

Gallai fod yn fuddiol pe bai’n dangos sut gellid cymhwyso’r egwyddorion yn gyson. Gallai ymarferwyr elwa ar enghreifftiau byr ac ymarferol o sut beth yw “ansawdd uchel” mewn gwahanol gyd-destunau, e.e. sut gellir sicrhau oedolion sy’n galluogi neu brofiadau difyr mewn amgylchedd gwarchod plant ag un unigolyn o gymharu â lleoliad mawr gofal dydd.

Gallai cyfeirio cryfach at ddysgu proffesiynol, offer hunanwerthuso a fframweithiau sicrhau ansawdd gynorthwyo darparwyr i droi egwyddorion yn gamau gwelliant parhaus.

Mae lle i’w gwneud yn fwy eglur sut mae darpariaeth o ansawdd uchel yn cefnogi datblygu’r Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol plant.

**Gofynnir am eich barn ar b’un a ydych yn cytuno â’r newid arfaethedig i’r diffiniad o chwarae mynediad agored.**

**Cwestiwn 5: Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r diweddariad i’r diffiniad ar Chwarae Mynediad Agored?**

**Cytuno**

Mae Estyn yn cytuno â’r diffiniad diweddaraf. Mae’n rhoi mwy o eglurder trwy gysylltu’n uniongyrchol â Cymru – canllawiau statudol Gwlad lle mae Cyfle i Chwarae. Mae’r diwygiad yn lleihau amwysedd ac yn cefnogi cysondeb ar draws darparwyr, arolygwyr a rhieni.

**Tra’n diweddaru’r diffiniadau ac fel rhan o’n hymrwymiad i sicrhau bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn addas at eu diben, rydym hefyd wedi ystyried datblygu enghreifftiau o fathau o sector y gellir eu hychwanegu at y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i gynorthwyo â’r diffiniadau.**

**Cwestiynau Ymgysylltu**

**Gofynnir am eich barn ar b’un a yw datblygu enghreifftiau i gefnogi’r diffiniadau o ddarpariaeth gofal dydd yn fuddiol**

**Cwestiwn Ymgysylltu C: Ydych chi’n meddwl y byddai ychwanegu enghreifftiau o fathau o ddarpariaeth o fewn y diffiniadau o bob un o’r is-gategorïau gofal dydd yn fuddiol?**

**Ydw**

Ydw. Byddai ychwanegu enghreifftiau yn fuddiol. Byddent yn gwneud y diffiniadau'n gliriach ac yn fwy hygyrch. Byddai enghreifftiau yn cefnogi cysondeb ar draws y sector, yn lleihau camddehongli ac yn helpu lleoliadau i gyd-fynd â'r safonau cywir. Bydd yn bwysig fod enghreifftiau'n parhau'n gyfoes, yn adlewyrchu ystod y ddarpariaeth ac yn cael eu defnyddio'n hyblyg fel enghreifftiau yn hytrach na chategorïau llym.

**Cwestiwn 6: Rydym yn cynnig mai dull mwy cymesur o ran Hyfforddiant Cymorth Cyntaf – Chwarae Mynediad Agored (Safon 10) fyddai gofyn i un person sydd â chymhwyster cymorth cyntaf llawn fod ar y safle bob amser, gyda chynlluniau wrth gefn ar waith i staff ychwanegol ddal cymwysterau cymorth cyntaf, yn amodol ar asesiad risg o'r mathau o weithgareddau a wneir. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

Mae Estyn yn cytuno â'r cynnig.

Mae gofyn bod o leiaf un swyddog cymorth cyntaf cymwys yn bresennol bob amser, gyda staff ychwanegol yn cael eu nodi trwy asesiad risg, yn ddull cymesur. Mae'n sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i ddiogelu plant â'r heriau ymarferol sy'n wynebu cynlluniau chwarae mynediad agored dros dro, gan gefnogi eu cynaliadwyedd.

I gryfhau'r gweithredu, byddai'n ddefnyddiol darparu canllawiau neu dempledi clir i helpu darparwyr i gynnal asesiadau risg cyson a chymesur.

**Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau a gynigir am ddull cymesur ar gyfer Safon 13: Person addas Staff Eraill (Cymwysterau) ar gyfer Chwarae Mynediad Agored?**

**Cytuno**

Mae Estyn yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig.

Maent yn darparu dull cymesur sy'n dangos dealltwriaeth o wirioneddau darpariaeth chwarae mynediad agored, tra'n diogelu ansawdd o hyd trwy ofynion fel 50% o staff yn dal cymhwyster gwaith chwarae Lefel 2.

Mae galluogi staff dan oruchwyliaeth i weithio tra'n gweithio tuag at gymwysterau yn cefnogi recriwtio a chynaliadwyedd yn y sector.

I gryfhau'r dull, byddai'n fuddiol cyfeirio at lwybrau hyfforddi hygyrch.

**Gofynnir am eich barn ar b'un a ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 11.**

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau a wnaed i Safon 11 Meddyginiaeth i ddangos y gwahaniaeth rhwng meddyginiaeth presgripsiwn a meddyginiaeth nad yw ar bresgripsiwn?**

**Cytuno**

Mae Estyn yn cytuno â'r newidiadau.

Mae gwahaniaeth cliriach rhwng meddyginiaeth presgripsiwn a meddyginiaeth nad yw ar bresgripsiwn yn cryfhau diogelu, yn lleihau amwysedd ac yn cefnogi arfer gyson ar draws lleoliadau.

Dylai hyn roi sicrwydd i rieni trwy'r gofyniad am gydsyniad blaenorol a galluogi darparwyr i ddiwallu anghenion iechyd dybryd plant yn briodol.

Gallai fod yn ddefnyddiol darparu deunyddiau ategol fel templedi cydsynio ac offer cadw cofnodion er mwyn helpu sicrhau gweithredu cymesur a chyson.

**Cwestiwn Ymgysylltu**

**Gofynnir am eich barn ar b'un a yw datblygu Atodiad ychwanegol ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i ddarparu mwy o arweiniad a chymorth pan fydd plant yn mynd yn sâl tra maent yn derbyn gofal yn y lleoliad yn fuddiol**

**Cwestiwn Ymgysylltu Ch – Ydych chi'n meddwl bod yr Atodiad ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol – Canllawiau ar gyfer gweinyddu parasetamol hylifol pan fydd plant yn mynd yn sâl yn y lleoliad, yn helpu esbonio beth mae'r lleoliad yn gallu a ddim yn gallu ei wneud o ran gweinyddu parasetamol hylifol yn y sefyllfaoedd a ddisgrifir?**

**Ydw**

Ydw, mae'r atodiad yn ddefnyddiol yn egluro'r hyn mae'r lleoliad yn gallu a ddim yn gallu ei wneud wrth weinyddu parasetamol hylifol.

Mae'n amlinellu amodau clir ynghylch cydsyniad rhieni, cysylltu â rhieni neu GIG 111, storio meddyginiaeth yn ddiogel a chadw cofnodion, sy'n cefnogi diogelu a thryloywder fel ei gilydd.

Gallai fod yn ddefnyddiol darparu templedi syml ar gyfer cydsynio a chadw cofnodion a fyddai'n cryfhau cysondeb a defnydd hawdd ymhellach, yn enwedig ar gyfer lleoliadau llai.

**Gofynnir am eich barn ar b'un a ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 13.**

**Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid ychwanegu'r canlynol at Safon 13 (DC): Person addas (Gofal Dydd)?**

**Safon newydd: Rhaid bodloni canrannau ar gyfer staff cymwys a heb gymhwyso ar draws y lleoliad, yn hytrach na fesul ystafell. Rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i ddefnyddio staff ar draws y lleoliad ac o fewn pob ystafell i sicrhau bod anghenion diogelwch, lles a datblygiad plant yn cael eu diwallu bob amser, yn cynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol ac anableddau.**

**Cytuno**

Mae Estyn yn cytuno â'r cynnig.

Mae egluro bod canrannau staffio yn berthnasol ar draws y lleoliad yn hytrach na fesul ystafell yn lleihau dryswch ac yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr ddefnyddio staff yn unol ag anghenion plant. Mae hyn yn cefnogi staffio mwy effeithlon tra'n sicrhau bod lles a datblygiad plant, yn cynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol, yn parhau'n ganolog.

**Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid ychwanegu'r canlynol at Safon 13 (DC): Person addas (Gofal Dydd):**

**Safon Newydd: Yn dibynnu ar lefelau staffio unigol pob lleoliad, gallai fod yn angenrheidiol defnyddio mwy o staff lle caiff cymorth penodol ei nodi i ddiwallu anghenion unigol plant. Rhaid diwallu cymarebau oedolyn: plentyn gofynnol o hyd. Ni ellir cyfrif unrhyw aelod o staff a gyflogir i weithio gyda phlant penodol i ddarparu cymorth ychwanegol o fewn y cymarebau staffio safonol.**

**Cytuno**

Mae Estyn yn cytuno â'r cynnig.

Mae'n rhoi canllawiau clir na ellir cyfrif staff ychwanegol a gyflogir i gynorthwyo plant penodol o fewn cymarebau safonol, gan sicrhau bod anghenion unigol plant yn cael eu diwallu heb ostwng lefelau staffio cyffredinol. Mae hyn yn cryfhau diogelu a chysondeb tra'n adlewyrchu arfer dda a welir eisoes mewn llawer o leoliadau.

**Gofynnir am eich barn ar b'un a ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 13: Person addas (CM).**

**Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gellid cyflogi cynorthwywyr gwarchod plant os ydynt yn gweithio tuag at y cymhwyster cynorthwyydd, ond na**

**ddylid eu gadael heb oruchwyliaeth gyda'r plant yn ystod y cyfnod hwn, a rhaid iddynt gwblhau'r cymhwyster o fewn 6 mis?**

**Cytuno**

Mae Estyn yn cytuno â'r cynnig.

Mae'n rhoi cydbwysedd rhwng diogelu a hyblygrwydd trwy sicrhau na ellir gadael cynorthwywyr heb oruchwyliaeth hyd nes byddant wedi cymhwyso, tra'n galluogi iddynt ennill profiad wrth iddynt weithio tuag at eu cymhwyster.

Mae'r cyfnod amser chwe mis yn rhoi eglurder ac yn helpu cynnal gweithlu cyson a chymwys.

**Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gellid gadael cynorthwywyr gwarchod plant sy'n gyfan gwbl gyfrifol am blant, yn unol â'r cymarebau staffio oedolyn i blentyn, am hyd at ddwy awr y dydd i gyd os cydymffurfir â phob un o ofynion y canllawiau o fewn Atodiad A a Safon 13?**

**Cytuno**

Mae Estyn yn cytuno â'r cynnig.

Mae caniatáu i gynorthwywyr cymwys fod yn gyfan gwbl gyfrifol am blant am hyd at ddwy awr y dydd yn rhoi hyblygrwydd buddiol i warchodwyr plant, er enghraifft yn ystod adegau cludo plant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, tra'n cynnal diogelu trwy ofynion clir yn Atodiad A a Safon 13.

Mae'r terfyn o ddwy awr yn rhoi cysondeb a sicrwydd i rieni.

Bydd yn bwysig fod y trefniant hwn yn cael ei fonitro i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gymesur ac nid yn gyflenwi estynedig arferol.

**Gofynnir am eich barn ar b'un a ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 15.**

**Cwestiwn 13: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol:**

**Mae uchafswm nifer y plant y gall gwarchodwr plant ofalu amdanynt fel a ganlyn:**

**· Deg o blant hyd at 12 mlwydd oed;**

**· O'r deg plentyn hynny, caiff dim mwy na chwech fod o dan 8 mlwydd oed.**

**· O'r chwe phlentyn hynny, caiff dim mwy na phedwar fod o dan 5 mlwydd oed.**

**· O'r pedwar plentyn hynny, caiff dim mwy na thri fod o dan 2 flwydd oed.**

**· O’r tri phlentyn hynny, caiff dim mwy na dau fod o dan 18 mis oed, fel arfer, er y gellir gwneud eithriadau ar gyfer brodyr a chwiorydd.’**

**Cytuno**

Mae Estyn yn cytuno â’r cynnig.

Mae’r cymarebau diwygiedig yn rhoi mwy o hyblygrwydd ar gyfer gwarchodwyr plant a theuluoedd, yn enwedig o ran galluogi brodyr a chwiorydd i aros gyda’i gilydd, sy’n cefnogi parhad gofal.

Mae’r cyfyngiadau ar blant ifanc iawn yn cynnal amddiffyniadau pwysig i sicrhau nad yw lles plant yn cael ei beryglu.

**Cwestiwn 14: Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y gallai plant y disgwylir iddynt ddechrau addysg statudol amser llawn (blwyddyn derbyn) yn y mis Medi gael eu dosbarthu yn 5 mlwydd oed ac yn hŷn yn ystod gwyliau’r haf yn union cyn hyn at ddibenion y cymarebau sy’n berthnasol i warchodwyr plant?**

**Cytuno**

Mae caniatáu i blant sydd ar fin dechrau’r ysgol amser llawn gael eu dosbarthu yn 5 oed ac yn hŷn yn ystod gwyliau’r haf yn addasiad synhwyrol a chymesur. Mae’n rhoi parhad i deuluoedd, yn llai’r tarfu mewn cyfnod pontio allweddol ac yn cynorthwyo gwarchodwyr plant i reoli eu cymarebau’n fwy hyblyg. Mae’r dull hwn yn briodol i gyfnod datblygiadol y plant a bydd yn helpu cynnal darpariaeth.

**Cwestiwn 15: Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y gallai plant 3-5 mlwydd oed sy’n mynychu darpariaeth addysgol neu gyfuniad o ddarpariaeth addysgol a gofal plant cofleidiol o fewn oriau ysgol mewn lleoliad arall am bum awr neu fwy bob dydd gael eu dosbarthu yn 5 mlwydd oed ac yn hŷn at ddibenion y cymarebau sy’n berthnasol i warchodwyr plant?**

**Cytuno**

Mae Estyn yn cytuno â’r cynnig.

Bydd yr hyblygrwydd hwn yn cynorthwyo teuluoedd, yn galluogi brodyr a chwiorydd i aros gyda’r un gwarchodwr plant ac yn helpu cynnal darpariaeth yn y sector.

Bydd amddiffyniadau a goruchwyliaeth trwy arolygiadau yn bwysig i sicrhau nad yw gwarchodwyr plant yn cael eu gor-ymestyn a bod anghenion unigol plant yn parhau i gael eu diwallu.

Dylai canllawiau bwysleisio na ddylai cymarebau byth fod yn bwysicach nag anghenion unigol plant.

**Cwestiynau Ymgysylltu**

**· Gofynnir am eich barn ar unrhyw effaith debygol ar y Gymraeg.**

**Cwestiwn Ymgysylltu D: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y newidiadau arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Gallai'r newidiadau arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol gael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, ond dim ond os caiff gweithredu ei gefnogi â chanllawiau a disgwyliadau clir ar gyfer darparwyr.

Mae ymgorffori cyfeiriadau at y Gymraeg o fewn safonau yn helpu codi ei phroffil ac yn sicrhau bod darparwyr yn gweld bod y Gymraeg yn rhan annatod o ddarpariaeth o ansawdd uchel yn hytrach nag ychwanegiad dewisol.

Mae sicrhau bod Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cyd-fynd â gweledigaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ac ymrwymiad dwyieithog Llywodraeth Cymru yn cefnogi parhad profiad i blant wrth iddynt symud rhwng y blynyddoedd cynnar, gofal plant ac addysg statudol.

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

**Ydw**

Rydym yn credu bod cyfleoedd clir i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol trwy ymgorffori'r Gymraeg yn naturiol mewn arferion bob dydd trwy gyfarchion, caneuon ac ymadroddion yn rhan o arfer ddyddiol, gan wneud yr iaith yn hygyrch, hyd yn oed lle nad yw staff yn siaradwyr Cymraeg.

Gellid hwyluso hyn trwy gyfeirio a datblygu adnoddau a phecynnau arweiniad dwyieithog yn seiliedig ar chwarae, e.e. posteri, llyfrau stori, adnoddau digidol i wneud y Gymraeg yn fwy gweledol a defnyddiadwy.

Gallai enghreifftiau o arfer dda gael eu dathlu a'u rhannu trwy astudiaethau achos o ystod o leoliadau i amlygu sut gellir defnyddio'r Gymraeg yn naturiol mewn chwarae a dysgu.

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?**

**Ydw**

Gallai fod yn ddefnyddiol cyfeirio at adnoddau ymarferol fel caneuon, rhigymau, arwyddion dwyieithog syml, ymadroddion yn seiliedig ar chwarae, ac ati, i staff di-Gymraeg eu defnyddio.

Hefyd, i sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi sy’n hygyrch, yn fforddiadwy ac yn gymesur ar gyfer darparwyr llai, yn cynnwys modiwlau ar-lein.

**Cwestiwn Ymgysylltu Dd: Yn eich barn chi, a allai’r newidiadau arfaethedig i’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol gael eu ffurfio neu’u newid er mwyn gwneud y canlynol:**

**- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**

**- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Gallent**

Gallent, mae Estyn yn credu bod cyfleoedd i ymestyn effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol posibl yn gysylltiedig â’r Gymraeg.

Gallai cyfleoedd ar gyfer Effeithiau Mwy Cadarnhaol gynnwys:

Cryfhau’r gyfatebiaeth â Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr i amlygu’r cyfraniad y gall lleoliadau gofal plant a chwarae ei wneud at y weledigaeth genedlaethol.

Annog defnydd ymarferol o’r Gymraeg mewn arfer bob dydd (cyfarchion, caneuon, gweithgareddau chwarae, arwyddion), yn enwedig lle nad yw staff yn rhugl, i normaleiddio’r iaith ar gyfer plant.

Darparu pecynnau cymorth, ymadroddion a deunyddiau chwarae dwyieithog sy’n ei gwneud yn haws i ymarferwyr di-Gymraeg gyflwyno’r Gymraeg yn naturiol mewn arferion.

Cynnwys astudiaethau achos neu ‘arfer sy’n werth ei rhannu’ o ystod eang o wahanol leoliadau (gwarchodwyr plant, cylchoedd chwarae, chwarae mynediad agored) i ddangos ffyrdd cymesur y gellir defnyddio’r Gymraeg ar draws mathau o ddarpariaeth.

Gallai cyfleoedd i Liniaru Effeithiau Negyddol gynnwys:

Trefnu bod hyfforddiant Cymraeg byr, ymarferol a fforddiadwy ar gael i staff mewn lleoliadau a gynhelir yn wirfoddol neu leoliadau gwledig lle gallai mynediad at gyrsiau fod yn gyfyngedig.

Annog darparwyr i esbonio sut maent yn cyflwyno’r Gymraeg yn eu lleoliad, gan feithrin cymorth ac ymwybyddiaeth rhieni a darparu deunydd cymorth ar gyfer rhieni.

**Cwestiwn Ymgysylltu E: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol am y Gymraeg. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:**

**Sylwadau:**

Er bod yr ymgynghoriad yn cyfeirio'n fuddiol at gefnogi'r Gymraeg, nid yw'n cysylltu'r newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn eglur â Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (er bod cyfeiriad at hyn yn yr asesiad effaith drafft). Byddai creu'r cysylltiad hwn yn cryfhau cyfatebiaeth â strategaeth Llywodraeth Cymru ac yn tanlinellu rôl lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae mewn cefnogi'r weledigaeth genedlaethol. Byddai cyfeiriad eglur hefyd yn helpu darparwyr i ddeall bod eu cyfraniad at hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan o flaenoriaeth genedlaethol ehangach, nid yn ofyniad rheoleiddio yn unig.

**Gofynnir eich barn ar b'un a ddylai Llywodraeth Cymru wneud unrhyw ddiwygiadau eraill i'r safonau.**

**Yn yr Adolygiad, nodwyd bod materion recriwtio a chadw yn broblem ar draws y sector. Felly, y tro diwethaf yr adnewyddwyd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn 2023, diweddarom ofynion cymwysterau gofal plant ar gyfer darparwyr gofal dydd o dan Safon 13: Person addas (DC)) – er mwyn gallu cynnwys 20% o staff mewn lleoliadau gofal dydd llawn a 10% o staff mewn lleoliadau chwarae sesiynol neu fynediad agored sy'n gweithio tuag at gymhwyster yn y cymarebau cymwysterau staff (gydag amodau wedi'u cymhwyso).**

**Cwestiwn Ymgysylltu F: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y gofynion "gweithio tuag at" presennol?**

Mae Estyn yn cefnogi cadw'r lwfans "gweithio tuag at", gan ei fod yn bwysig ar gyfer recriwtio a chynaliadwyedd, ond dylai'r cyfnod cwblhau 3 blynedd gael ei gefnogi gan gerrig milltir clir er mwyn i ddarparwyr ac arolygwyr fod yn hyderus fod cymwysterau'n cael eu cwblhau mewn modd amserol a chyson.

**Cyhoeddwyd penodau o Asesiad Effaith Integredig yn rhan o'r ymgynghoriad hwn; Adran 1 ac 8, Asesiad Effaith ar y Gymraeg a Hawliau Plant.**

**Cwestiwn Ymgysylltu Ff: Pa sylwadau, os o gwbl, oes gennych chi ar yr asesiadau effaith drafft, yn enwedig effeithiau ar blant, teuluoedd a'r rhai sy'n byw mewn anfantais economaidd-gymdeithasol (yn cynnwys tystiolaeth y dylid ei hystyried, yn eich barn chi)?**

Gallai hyblygrwydd mewn cymarebau gwarchodwyr plant a chymwysterau cynorthwyydd wella argaeledd a fforddiadwyedd gofal plant, sydd o fudd yn arbennig i deuluoedd ag opsiynau cyfyngedig.

Mae'r ffocws ar ofal am frodyr a chwiorydd a gwasanaethau cofleidiol yn mynd i'r afael â rhwystrau i rieni sy'n gweithio, yn enwedig y rhai sydd ag oriau gwaith annodweddiadol neu sawl plentyn.

**Cwestiwn Ymgysylltu G: Mae Asesiad drafft o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd wedi cael ei ddatblygu yn rhan o'r ymarfer hwn; i'n cynorthwyo ymhellach, ychwanegwch unrhyw sylwadau ar unrhyw effeithiau y gallai'r newidiadau eu cael ar bobl â nodweddion gwarchodedig (yn cynnwys tystiolaeth y dylid ei hystyried), yn eich barn chi?**

Gallai'r newidiadau arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol gael effeithiau cadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchodedig, at ei gilydd, ond mae hyn yn dibynnu ar ba mor gymesur y maent yn cael eu gweithredu a'u cefnogi ar draws gwahanol fathau o ddarpariaeth.

**Effeithiau Cadarnhaol:**

Plant ag Anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Nod y newidiadau arfaethedig i ddefnyddio staff (Safon 13) yw darparu hyblygrwydd i leoliadau gynnwys staff ychwanegol neu wirfoddolwyr i gynorthwyo plant ag ADY neu anableddau. Mae hyn yn sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu heb wanhau cymarebau oedolyn i blentyn, gan wella cynwysoldeb ac ansawdd gofal.

Gall Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant helpu lleoliadau i ddarparu adnoddau neu staffio arbenigol ar gyfer plant ag ADY, gan sicrhau mynediad teg at ofal plant.

Teuluoedd Ethnig Lleiafrifol: Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol eisoes yn cynnwys safonau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac arferion gwrth-wahaniaethol. Bydd diweddariadau arfaethedig yn parhau i gynorthwyo plant o gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol amrywiol, yn cynnwys ystyriaethau ar gyfer iaith, anghenion dietegol (e.e. bwyd halal) ac arferion rhianta.

Bydd dolenni at offer gwrth-hiliaeth ac arferion gorau yn cael eu cynnwys yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, gan gefnogi cynwysoldeb ymhellach. Gallai adnoddau DARPL (Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth) ddarparu cymorth gwerthfawr ar gyfer gweithredu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol diwygiedig. Byddai cyfeirio at adnoddau o'r fath o fewn y canllawiau yn helpu darparwyr i ymgorffori arfer gynhwysol yn gyson ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru ar wrth-hiliaeth a chyfiawnder cymdeithasol.

**Effeithiau Negyddol Posibl:**

Plant ag Anableddau ac ADY: Os na ellir cynllunio hyblygrwydd staffio yn ofalus, mae perygl na fydd plant ag ADY efallai'n cael cymorth digonol, yn enwedig mewn lleoliadau ag adnoddau neu arbenigedd cyfyngedig.

**Cwestiwn Ymgysylltu Ng: A oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ynglŷn â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yr ydych yn dymuno'u rhoi ar hyn o bryd?**

**Nac oes**